Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/LG/0056/19

Nick Ramsay, AC
Cadeirydd – Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

10 Ionawr 2019

Annwyl Nick

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS
Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru 2017-18
YMATEB I'R ADRODDIAD

Rwyf yn amgáu copi o ymateb Gweinidogion Cymru i'r adroddiad uchod fydd yn cael ei osod gerbron y Swyddfa Gyflwyno.

Ar ran y Cabinet, hofwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor am y ffordd ofalus ac ystyriol y cynhaliwyd yr archwiliad ac y cynhyrchwyd yr adroddiad.

Bydd y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol perthnasol yn falch o ddarparu unrhyw wybodaeth, eglurhad neu fanylion pellach os oes angen, yn dilyn yr ymateb hwn.

Cofion

Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru 2017-18

Darparwyd gan: Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Dyddiad: 11 Ionawr 2019

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu canfyddiadau yr adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r tri argymhelliad sydd wedi'u cynnwys o fewn iddo.

Argymhelliad 1 – Rydym yn argymell bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhannu canfyddiadau'r adolygiad annibynnol pan fydd wedi ei gwblhau, sydd i ddigwydd ar ddiwedd 2018. Mae'n rhaid i ganfyddiadau'r adolygiad fod ar gael i'r cyhoedd.

Derbyn – Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb yn uniongyrchol i'r Pwyllgor ynghylch yr argymhelliad hwn. Rydym yn deall, fodd bynnag, y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi casgliadau'r adolygiad annibynnol i'r Pwyllgor ac y bydd yn eu cyhoeddi ar ei wefan. Rydym yn disgwyl i hyn fod mewn pryd ar gyfer sesiwn nesaf Cyfoeth Naturiol Cymru gyda'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2019.

Argymhelliad 2 – Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn creu cynllun gweithredu gydag amserlen glir ac amcanion ar gyfer cyflawni. Mae'n rhaid i'r cynlluniau nodi'r newidiadau sydd eu hangen i weithredu hyn yn codi o'r adolygiad annibynnol. Mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru rannu'r cynlluniau hyn gyda'r Pwyllgor pan fyddant wedi'u cwblhau.

Derbyn – Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb yn uniongyrchol i'r Pwyllgor ynghylch yr argymhelliad hwn. Rydym ar ddeall y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cynllun gweithredu i'r Pwyllgor fel rhan o'u tystiolaeth ar gyfer y sesiwn nesaf gyda'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2019.

Argymhelliad 3 – Rydym yn argymell, os nad yw canfyddiadau'r adolygiad annibynnol ar fethiannau llywodraethu yn ddigonol, bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod adolygiad cynhwysfawr yn cael ei gynnal ar unwaith o lywodraethu o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, gan edrych ar sut oedd yn bosibl i'r methiannau hyn ddigwydd.

Derbyn– Wrth dderbyn canfyddiadau'r adolygiad annibynnol, ac wrth ystyried y dystiolaeth y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei rhoi i'r Pwyllgor ym mis Chwefror, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach. Byddaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor wedi hyn.